# Côd Ymddygiad ar gyfer Defnyddio'r Rhyngrwyd a Systemau TGCh Ysgolion yn Ddiogel

# YSGOL GYFUN GŴYR

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

# Cyflwyniad

Mae technolegau newydd wedi dod yn rhan annatod o fywydau plant a phobl ifanc yn y gymdeithas sydd ohoni, ac yn eu bywydau y tu allan i'r ysgol. Gall y dechnoleg hon ysgogi trafodaeth, hyrwyddo creadigrwydd a gwneud dysgu'n fwy effeithiol. Maent hefyd yn cyflwyno cyfleoedd i staff wneud dysgu'n fwy deniadol a rheoli data'n fwy effeithlon. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn ymwybodol y gall camddefnyddio'r systemau hyn wneud yr ysgol a'r defnyddiwr yn agored i atebolrwydd cyfreithiol posib. Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod gan staff a gwirfoddolwyr fynediad da i TGCh i wella'u gwaith a'r cyfleoedd dysgu ar gyfer disgyblion yn eu gofal. Mae'r ysgol yn disgwyl i staff a gwirfoddolwyr gytuno i fod yn ddefnyddwyr TGCh cyfrifol.

Bwriedir i'r Polisi Defnydd Derbyniol sicrhau bod:

- staff a gwirfoddolwyr yn ddefnyddwyr cyfrifol, a'u bod yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnolegau cyfathrebu eraill at ddefnydd addysgol, personol a hamdden;
- systemau a defnyddwyr TGCh yr ysgol yn cael eu hamddiffyn rhag camddefnydd damweiniol neu fwriadol a allai beryglu diogelwch y systemau a'r defnyddwyr;
- staff yn cael eu hamddiffyn rhag peryglon posib defnyddio TGCh yn eu gwaith pob dydd.

Er mwyn fy niogelwch proffesiynol a phersonol, rwy'n deall:

- y gall yr ysgol fonitro fy nefnydd o'r systemau TGCh, e-bostio a dulliau cyfathrebu digidol eraill;
- bod y rheolau a amlinellir yn y cytundeb hwn hefyd yn cyfeirio at ddefnyddio systemau TGCh ysgolion (e.e. gliniaduron, e-byst, HWB) y tu allan i'r ysgol hefyd, yn ogystal â thechnoleg ym meddiant disgyblion a staff ond a gymerir i'r ysgol (megis gliniaduron, ffonau symudol, ffonau camera, PDA a chwaraewyr cyfryngau symudol.)

**Staff, Llywodraethwyr ac Ymwelwyr**
**Cytundeb Defnydd Derbyniol/Côd Ymddygiad**

- Byddaf ond yn defnyddio system e-bostio/rhyngrwyd/mewnrwyd/porth dysgu'r ysgol ac unrhyw dechnoleg gysylltiedig at ddibenion proffesiynol neu at ddibenion a ystyrir yn 'rhesymol' gan y Pennaeth neu'r Corff Llywodraethu.

- Byddaf yn cydymffurfio â diogelwch y system TGCh ac yn peidio â datgelu unrhyw gyfrineiriau a ddarperir i mi gan yr ysgol neu gan awdurdodau eraill.

- Byddaf yn sicrhau bod yr holl gyfathrebu electronig gyda disgyblion a staff yn cyd-fynd â'm rôl broffesiynol.

- Ni fyddaf yn rhannu fy manylion personol, megis rhif ffôn symudol a chyfeiriad e-bost personol, â disgyblion.

- Byddaf ond yn defnyddio'r system(au) e-bostio diogel a gymeradwywyd ar gyfer unrhyw fusnes ysgol.

- Byddaf yn sicrhau bod data personol (fel y data ar feddalwedd MIS) yn cael ei gadw'n ddiogel a'i ddefnyddio'n briodol, boed hynny yn yr ysgol, pan gaiff ei gymryd o'r ysgol neu'n cael ei ddefnyddio o rywle arall. Gellir cymryd data personol o'r ysgol neu ei ddefnyddio o rywle arall gydag awdurdod y Pennaeth neu'r Corff Llywodraethu yn unig. Rhaid amgryptio data personol neu sensitif a gymerir oddi ar y safle.

- Ni fyddaf yn gosod unrhyw galedwedd neu feddalwedd heb ganiatâd Mr Gareth Edmondson, Pennaeth Systemau Digidol yr Ysgol.

- Ni fyddaf yn pori, yn lawrlwytho, yn llwytho i fyny na'n dosbarthu unrhyw ddeunydd a allai gael ei ystyried yn sarhaus, yn anghyfreithlon, yn ddifenwol neu'n wahaniaethol.

- Tynnir, storir a defnyddir lluniau o ddisgyblion a/neu staff at ddibenion proffesiynol yn unig, yn unol â pholisi'r ysgol, a chyda chaniatâd ysgrifenedig y rhiant, y gofalwr neu aelod o'r staff. Ni ddosberthir lluniau y tu allan i rwydwaith yr ysgol heb ganiatâd y rhiant/gofalwr, aelod o'r staff neu'r pennaeth.

- Rwy'n deall y gall fy nefnydd o'r rhyngrwyd a thechnoleg gysylltiedig arall gael ei fonitro a'i gofnodi, a gall gael ei ddarparu, ar gais, i fy Rheolwr Llinell neu'r Pennaeth.

- Byddaf yn parchu hawlfraint a hawliau eiddo deallusol.

- Byddaf yn sicrhau na fydd fy ngweithgareddau ar-lein, yn yr ysgol a'r tu allan iddi, yn dwyn anfri ar fy rôl broffesiynol.

- Byddaf yn cefnogi ac yn hyrwyddo polisïau e-ddiogelwch a diogelwch data yr ysgol ac yn helpu disgyblion i fod yn ddiogel ac yn gyfrifol yn eu defnydd o TGCh a thechnoleg gysylltiedig.

**Llofnod y Defnyddiwr**

Rwy'n cytuno dilyn y côd ymddygiad a chefnogi defnydd diogel TGCh drwy'r ysgol.

**Llofnod** ……..………………….………… **Dyddiad** ……………………

**Enw llawn** ………………………………........................................(wedi'i argraffu)

**Teitl eich swydd** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Cyfrineiriau**

- Defnyddiwch eich cyfrineiriau personol eich hun i ddefnyddio gwasanaethau ar gyfrifiaduron.
- Sicrhewch eich bod yn nodi eich cyfrineiriau personol bob tro rydych yn mewngofnodi. Peidiwch â chynnwys unrhyw gyfrineiriau mewn unrhyw weithdrefnau mewngofnodi awtomatig.
- Newidiwch eich cyfrinair pryd bynnag y bo arwydd o berygl posib i'r system neu i'r cyfrinair.
- Peidiwch â chofnodi eich cyfrineiriau na'ch allweddi amgryptio ar bapur na mewn ffeil heb ei diogelu.
- Peidiwch fyth â datgelu eich cyfrinair personol i neb ond staff cefnogi TGCh pan fydd rhaid. Sicrhewch fod pob cyfrinair personol sydd wedi cael ei ddatblygu yn cael ei newid wedi i'r gofyniad ddod i ben.
- Sicrhewch nad ydych yn gadael gorsafoedd gwaith heb eu goruchwylio ar ôl i chi fewngofnodi iddynt.

**Mynediad o bell.**

- Rydych yn gyfrifol am bob gweithgaredd drwy eich cyfleuster mynediad o bell.
- Defnyddiwch gyfarpar â lefel ddiogelwch briodol ar gyfer mynediad o bell yn unig.
- I atal mynediad heb ganiatâd i systemau'r ysgol, peidiwch â datgelu eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair i neb.
- Dewiswch gyfrineiriau anodd eu dyfalu e.e. peidiwch â defnyddio rhif eich tŷ neu eich rhif ffôn na dewis rhifau dilynol neu ailadrodd rhifau.
- Peidiwch ag ysgrifennu na chofnodi unrhyw wybodaeth am ddefnyddio'r rhwydwaith. Rhaid cadw unrhyw wybodaeth o'r fath a ysgrifennir i lawr mewn lle diogel a'i chuddio fel na fydd neb arall yn gallu deall beth ydyw.
- Diogelwch wybodaeth a data'r ysgol bob amser, gan gynnwys unrhyw ddeunydd wedi'i argraffu a gynhyrchir wrth ddefnyddio'r cyfleuster mynediad o bell. Cymerwch ofal arbennig pan fo mynediad o leoliad y tu allan i'r ysgol.

**Storio/Trosglwyddo Gwybodaeth Bersonol, Sensitif neu Gyfrinachol drwy ddefnyddio Cyfryngau Symudadwy**

- Sicrhewch y prynir cyfryngau symudadwy gyda systemau amgryptio ynghlwm wrthynt.
- Storiwch holl gyfryngau symudadwy yn ddiogel.
- Gwaredwch ar gyfryngau symudadwy a allai gynnwys data personol yn ddiogel.
- Amgryptiwch bob ffeil sy'n cynnwys data personol, sensitif neu gyfrinachol.
- Sicrhewch fod gyriannau disgiau caled peiriannau nad ydynt mewn gwasanaeth yn cael eu symud neu eu storio'n ddiogel neu eu gwagio.

## Defnyddio Lluniau'n Ddiogel

(Am gyngor, gweler yr **Arweiniad i Ysgolion ar Ddefnyddio Lluniau'n Ddiogel**.
(http://www.learn-ict.org.uk/intsafety/index.asp)

## Cyfarpar TGCh Ysgolion gan gynnwys Cyfarpar TGCh Cludadwy a Symudol a Chyfryngau Symudadwy

## Cyfarpar TGCh Ysgolion

- Fel defnyddiwr TGCh, rydych yn gyfrifol am unrhyw weithgaredd a gynhelir ar gyfarpar TGCh yr ysgol a ddarperir ar eich cyfer.

- Sicrhewch fod yr holl gyfarpar TGCh rydych yn ei ddefnyddio yn cael ei gadw'n ddiogel.

- Mae'n rhaid i chi gadw eich data yn gyson i yriant rhwydwaith yr ysgol. Rydych yn gyfrifol am gadw copïau wrth gefn ac adfer unrhyw ddata sydd gennych nad ydyw ar yriant rhwydwaith yr ysgol.

- Ni ddylai data personol na sensitif gael ei gadw ar yriant lleol cyfrifiaduron bwrdd gwaith personol. Os oes rhaid, mae'n angenrheidiol bod y gyriant lleol yn cael ei amgryptio.

- Ni ddylid defnyddio cyfarpar TGCh preifat ar rwydwaith ysgol.

- Os ydych yn cael ymddiswyddo neu'n cael eich symud, dylech ddychwelyd pob darn o gyfarpar TGCh i'ch rheolwr. Hefyd, byddai'n rhaid i chi ddarparu manylion am eich holl gyfrifon i'r system er mwyn eu hanalluogi.

- Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod unrhyw wybodaeth a gyrchir o'ch cyfrifiadur eich hun neu o gyfarpar cyfryngau symudadwy yn cael ei chadw'n ddiogel, ac nad yw gwybodaeth bersonol, sensitif neu gyfrinachol yn cael ei datgelu i unrhyw berson heb awdurdod.

## Technoleg Symudol

Mae nifer o dechnolegau newydd yn cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer dysgu ac addysgu, gan gynnwys symud at ddysgu wedi'i bersonoli a pherchnogaeth bersonol ar ddyfeisiau i blant a phobl ifanc. Mae llawer o dechnoleg symudol cyfredol fel chwaraewyr cyfryngau cludadwy, dyfeisiau gemau a ffonau symudol a chlyfar yn gyfarwydd i blant y tu allan i'r ysgol hefyd. Caiff technoleg newydd ei harchwilio o ran lles addysgol ac asesir y risg cyn caniatáu ei defnyddio yn yr ysgol. Mae ein hysgol yn dewis rheoli defnydd y dyfeisiau hyn yn y ffyrdd canlynol er mwyn i ddefnyddwyr fanteisio arnynt yn briodol.

## Dyfeisiau Symudol Personol (gan gynnwys ffonau)

- Mae'r ysgol yn caniatáu i staff ddod â'u ffonau a'u dyfeisiau symudol personol at eu defnydd eu hunain. Nid yw'r ysgol yn caniatáu i aelod o'r staff gysylltu â disgybl neu riant/gofalwr drwy ddefnyddio eu dyfais bersonol o dan unrhyw amgylchiadau.

- Gellir defnyddio'r dechnoleg at ddibenion addysgol, fodd bynnag, drwy gytundeb â'r Pennaeth. Nid yw'r ysgol yn gyfrifol am golli, niweidio neu ddwyn unrhyw ddyfais symudol bersonol.

- Ni chaniateir anfon negeseuon testun amhriodol rhwng unrhyw aelodau o gymuned yr ysgol.

- Rhaid gofyn am ganiatâd cyn i unrhyw luniau neu recordiadau sain gael eu gwneud ar y dyfeisiau hyn o unrhyw aelodau o gymuned yr ysgol.

- Rhaid i ddefnyddwyr sy'n dod â dyfeisiau personol i'r ysgol sicrhau nad oes cynnwys amhriodol neu anghyfreithlon ar y ddyfais.

## Dyfeisiau Symudol a Ddarperir gan yr Ysgol (gan gynnwys ffonau)

- Ni chaniateir anfon negeseuon testun amhriodol rhwng unrhyw aelodau o gymuned yr ysgol.
- Rhaid gofyn am ganiatâd cyn i unrhyw luniau neu recordiadau sain gael eu gwneud ar y dyfeisiau o unrhyw aelodau o gymuned yr ysgol.
- Pan fo'r ysgol yn darparu technoleg symudol fel ffonau, gliniaduron a PDA ar gyfer ymweliadau a theithiau oddi ar y safle, dylid defnyddio'r dyfeisiau hyn yn unig.
- Pan fo'r ysgol yn darparu gliniadur ar gyfer staff, dim ond y ddyfais hon y dylid ei defnyddio i gynnal busnes ysgol y tu allan i'r ysgol.

### Arweiniad i Staff ar Ddefnyddio Rhwydweithiau Cymdeithasol a Blogiau

Mae safleoedd rhwydweithio cymdeithasol (e.e. Facebook, MySpace etc) a safleoedd blogio (e.e. Wordpress, Twitter etc) yn rhan annatod o fywydau llawer o bobl ifanc ac oedolion. Fodd bynnag, dylai oedolion sy'n gweithio gyda phlant adolygu eu defnydd o rwydweithiau cymdeithasol wrth iddynt dderbyn cyfrifoldebau proffesiynol. Ar ôl cyhoeddi gwybodaeth fel ffotograffau a blogiau ar-lein, maent bron yn amhosib eu rheoli. Mae rhai oedolion wedi cael eu 'dal' drwy adael sylwadau am eu gweithle neu eu cydweithwyr. Fe'ch cynghorir yn gryf i beidio â chyfeirio at eich bywyd ysgol o gwbl ar y safleoedd hyn, na'n dwyn anfri ar eich cyflogwr mewn unrhyw ffordd arall.

*(Adolygwyd: 2025)*